

# IEUENCTID

## Cwestiynau ieuentid ar gyfer trafodaeth grŵp bach (11–15 oed)

Nawr mae wal Jerwsalem wedi'i gorffen, ac mae'r bobl wedi dathlu trwy orymdeithio o amgylch y waliau, yn moli Duw. Mae hwn yn ymateb diatal i'r hyn y mae Duw wedi'i wneud dros bobl Jerwsalem - mae wedi eu cadw'n ddiogel rhag eu gelynyon, darparu modd i ailadeiladu'r waliau a'u hadfer i anrhydedd ymhlith y cenedloedd sy'n eu hamgylchynu.

## Darllenwch Nehemeia 8: 1–10

- Pam ydych chi'n meddwl bod y bobl yn wylo pan ddarllenodd Esra iddyn nhw?
- Sut ydych chi'n delio â theimladau o euogrwydd neu gywilydd pan wyddoch fod eich ymddygiad wedi syrthio'n fyr?
- Meddylwch am amser pan gawsoch drafferth gwneud rhywbeth a oedd yn anodd iawn. Os ydych chi'n gallu, rhannwch beth oedd hyn a sut roedd yn teimlo.
- Sut mae'r adnod, 'Bod yn llawen yn yr Arglwydd sy'n rhoi nerth i chi' yn helpu ar adegau pan rydych yn cael trafferth?

Fe sylwch fod y Lefiaid wedi gwneud y gyfraith yn ddealladwy i'r bobl. Pwy yn eich bywyd sydd wedi eich helpu chi i ddeall y Beibl yn well? Allech chi feddwl am rywun y gallech chi wneud hyn drosto?

*Weithiau mae'n anodd gweld sut all geiriau ysgrifennwyd miloedd o flynyddoedd yn ôl, pan oedd y byd yn wahanol iawn, fod yn berthnasol i ni heddiw. Gall dod ynghyd ag eraill a darllen a siarad am yr hyn rydyn ni wedi'i ddarllen o'r Beibl fod yn ddefnyddiol iawn. Dyna pam rydyn ni'n argymhell adnodd Cymdeithas y Beibl arall: Inside Out. Mae'n adnodd cyfoes a hwyliog y gallwch chi ei ddefnyddio ar eich pen eich hun neu gyda grŵp. Bydd gwneud eich ffordd drwy'r llyfr hwn yn eich helpu i gysylltu gair Duw â'ch bywyd heddiw.*

## Notes